| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2012** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU TREFNIADAU AR GYFER CYFLWYNO SYLWADAU/GWRTHWYNEBU CEISIADAU TRWYDDED EIDDO** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Cynghorydd Eryl Jones Williams.
Mae sawl enghraifft wedi bod yn ddiweddar o geisiadau trwydded eiddo sydd wedi eu cyfeirio at yr Is - Bwyllgor Trwyddedu er penderfyniad oherwydd bod gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gynghorau Tref yn gwrthwynebu ceisiadau.

Pan gyflwynir cais i wyro adolygu neu ganiatáu trwydded eiddo i'r Awdurdod Trwyddedu, fe ddilynir y drefn yn unol â chanllawiau a gyflwynir o dan adran 182 o'r Ddeddf Drwyddedu 2003.

Os bydd cais wedi ei gyflwyno mewn modd priodol , cywir a chyflawn nid oes angen cyfeirio'r cais er penderfyniad i wrandawiad gan y r Is Bwyllgor os nad oes sylwadau neu wrthwynebiad perthnasol wedi ei dderbyn gan awdurdod cyfrifol neu unrhyw berson arall.
Yn yr achosion hyn , mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn gallu caniatáu ceisiadau yn unol â'r hyn a ofynnir amdano; ac yn unol â'r amodau sy'n berthnasol i'r Atodlen Weithredol ac amodau mandadol perthnasol y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Os oes sylwadau neu wrthwynebiad perthnasol yn cael ei wneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolion mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad i wrandawiad gan yr Is Bwyllgor Trwyddedu.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder proses; yn arferol fe gyfeirir ceisiadau lle mae sylwadau /gwrthwynebiadau wedi derbyn i'r Is Bwyllgor.

## DILYSRWYDD GWRTHWYNEBIAD I GEISIADAU AM DRWYDDED

Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu arweiniad ar wneud sylwadau neu wrthwynebu ceisiadau trwyddedu eiddo yn y canllawiau a wneir o dan adran 182 o'r Ddeddf Drwyddedu 2003.
Fe nodir fod rhaid i sylwadau a wneir oddifewn i'r cyfnod ymgynghorol fod yn benodol am yr effaith tebygol o ganiatáu trwydded; mewn perthynas ag o leiaf un o'r amcanion trwyddedu -

- **Atal trosedd ac anrhefn**
- **Diogelwch y Cyhoedd**
- **Atal niwsans cyhoeddus**
- **Diogelu plant rhag niwed**

Fe fyddai rhaid sicrhau yn yr un modd fod cais i adolygu trwydded eiddo hefyd yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r modd mae'r gweithgareddau trwyddedig yn tanseilio o leiaf un o'r amcanion trwyddedu.

Fe ddylai unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth lle mae hynny'n bosib – er enghraifft tystiolaeth o nifer o ddigwyddiadau troseddol yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig; lluniau Teledu Cylch Cyfyng ac yn y blaen.

Mae gwneud sylwadau neu wrthwynebu cais, neu geisio am adolygiad o drwydded yn fater difrifol; mae'n bwysig fod sylwadau neu wrthwynebiadau yn ffeithiol gywir. Mae'n drosedd i wneud datganiad anghywir yn fwriadol mewn perthynas â chais am drwydded; mae'r uchafswm dirwy yn dilyn collfarn ddiannod yn £5,000.

Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ddiystyru sylwadau neu wrthwynebiadau os ydynt yn 'wamal' neu yn 'drallodus' neu'n ailadrodd .
Enghraifft o sylwadau 'gwamal' fyddai gwrthwynebiad yn amlwg yn ddibwys, heb fod o ddifri. Fe fyddai gwrthwynebiad yn cael ei ystyried yn 'drallodus' os oes anghydfod rhwng busnesau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn sail i'r gwrthwynebiad.

Pan dderbynnir sylwadau neu wrthwynebiadau i geisiadau sydd ddim yn cynnwys llawer o eglurhad , neu dystiolaeth gefnogol; mae'n anodd iawn disgwyl i swyddogion y Cyngor ac aelodau'r Is - Bwyllgor wneud penderfyniad a'r dilysrwydd a phwysigrwydd y sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Fe wahoddir unrhyw berson neu awdurdod cyfrifol sydd yn gwneud sylwadau neu yn gwrthwynebu i fynychu gwrandawiad yr Is Bwyllgor i gefnogi ac ymhelaethu ar eu sylwadau. Os nad yw gwrthwynebydd yn manteisio ar y cyfle i fynychu'r gwrandawiad; mae tasg o ystyried pwysigrwydd y sylwadau neu wrthwynebiad yn anodd; os nad yw'r sail tystiolaeth a pherthnasedd i amcanion trwyddedu yn amlwg. Dyma'r sefyllfa sydd wedi wynebu'r Is Bwyllgor hwn ar sawl achlysur yn ddiweddar.

## OPSIYNAU AR GYFER ADOLYGU'R DREFN BRESENNOL

Mae sawl opsiwn i'w ystyried er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y broses o wneud sylwadau –

- Llythyru clercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar y mater gyda chanllawiau ar wneud sylwadau ar geisiadau
- Gyrru ffurflen bwrpasol ar gyfer cofnodi rhesymau dros wrthwynebu neu roi sylwadau ar gais i gynghorau cymuned neu at unrhyw berson neu sefydliad unwaith maent wedi gwneud sylwadau.
- Cynnal sesiwn hyfforddiant cynghorau Cymuned a Thref
- Fod y swyddogion yn defnyddio'r disgresiwn a ganiateir i wrthod gwrthwynebiadau sydd yn amlwg heb berthnasedd i'r amcanion trwyddedu.
- Rhoi canllawiau ar sut i wneud sylwadau ar gais neu wrthwynebu ynghyd a ffurflen bwrpasol ar wefan y Cyngor.

## ARGYMHELLIAD

Fod aelodau'r Is - Bwyllgor yn ystyried y camau sydd yn angenrheidiol i sicrhau y derbynnir sylwadau a gwrthwynebiadau perthnasol yn unig mewn gwrandawiadau ar geisiadau trwyddedu a wneir yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003